Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/JH-/4574/18

Holl Aelodau'r Cynulliad

31 Ionawr 2019

Annwyl Cydweithwyr

Ar 29 Ionawr 2019, fe wnaethom drafod cynllun newydd Llywodraeth Cymru, Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn y Cyfarfod Llawn. Yn ystod y drafodaeth, cytunais innau i roi mwy o fanylion adsefydlu ffoaduriaid yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ystadegau mewnfudo chwarterol swyddogol ar ei gwefan, ac mae'r ffigurau diweddaraf hyd at fis Medi 2018 yno:
https://www.gov.uk/government/collections/immigration-statistics-quarterly-release

Mae pob un o 22 awdurdod lleol Cymru wedi cymryd rhan yn Rhaglen Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed, a chofnodwyd bod 893 wedi cyrraedd o dan y cynllun hwnnw. Rydym yn gwybod hefyd fod 66 o blant wedi cyrraedd Cymru o dan Gynllun Adsefydlu Plant sy'n Agored i Niwed. Mae yna gyfanswm o 959 wedi dod yma, felly, ers dechrau'r rhaglenni adsefydlu hyn. Fodd bynnag, gwyddom ein bod lawer yn nes na hynny at y garreg filltir o 1,000, ac rydym yn disgwyl i fwy o ddata gael eu cyhoeddi fis nesaf.

Er nad yw rhai awdurdodau lleol wedi adsefydlu unigolion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nid ydym yn amau eu hymrwymiad i adsefydlu, a byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru er mwyn deall yr hyn y gellir ei wneud er mwyn cynyddu'r gwaith. Yn aml, mae rhwystrau yn codi yn sgil polisïau Llywodraeth y DU ar fudd-daliadau lles, sy'n ei gwneud yn anodd dod o hyd i eiddo priodol.

Yn ystod yr un cyfnod, hoffwn gydnabod hefyd waith caled awdurdodau Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam fel ardaloedd sydd wedi derbyn ceiswyr lloches a'u cefnogi. Yn aml, ni roddir y sylw priodol i'r system loches, ond mae'n rhan hanfodol o'n hymdrechion i gynnig noddfa yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn sicrhau hefyd fod gennych y ffigur cywir ynghylch y cyllid a ddarparwyd i gefnogi plant ar eu pen eu hunain a oedd yn ceisio lloches yn 2016-17 a 2017-18, sef £550,000. Darparwyd £200,000 arall eleni.

Yn gywir iawn,

Jane

Jane Hutt AC
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip